# SGILIAU I BAWB

## PECYN CYMORTH CYFATHREBU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Cymru'n Gweithio
Working Wales

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# SGILIAU I BAWB

## CYNNWYS


2 Ynglŷn â'r pecyn cymorth
3 Sut allwch chi helpu
4 Cyrraedd ein cynulleidfaoedd
5 Negeseuon allweddol
6 Y cyfryngau cymdeithasol
7 Asedau digidol
9 Cylchlythyr
10 E-bost i'r gweithwyr ac aelodau
12 Copi ar gyfer gwefannau



# YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH



Nod y pecyn cymorth hwn yw helpu i hyrwyddo'r cyrsiau hyfforddi am ddim ar gyfer gweithwyr ar ffyrlo i ddechrau. Byddwn yn ymestyn a hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd trwy gyfrwng Cymru'n Gweithio yn ddiweddarach, gan roi mynediad hawdd at gyrsiau o safon am ddim i'w helpu i feithrin eu sgiliau, eu cynnydd yn eu gwaith a hybu eu rhagolygon swyddi.

Mae'r platfform yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar bob lefel, o'r cam cyflwyniadol i lefel uwch, a ddewiswyd law yn llaw â busnesau a'r arbenigwyr addysgol gorau.

Mae'r cyfan yn agored i bawb, boed newydd fynd ar ffyrlo ac yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd, yn ddi-waith ac am ddatblygu eu CV, neu'n awyddus i gadw'r cof yn iach a phrysur wrth fyw a bod gartref ar hyn o bryd.

Gan ganolbwyntio ar y sgiliau mae llawer o gyflogwyr eu hangen fwyaf, Sgiliau i Bawb yw'r cam cyntaf tuag at adferiad, gan helpu i hybu twf a chynhyrchiant y genedl.

SGILIAU I BAWB
PECYN CYMORTH
CYFATHREBU

# SUT ALLWCH CHI HELPU


TRWY GYFATHREBU, EIN NOD YW CODI YMWYBYDDIAETH A SBARDUNO DARPAR DDYSGWYR I DROI AT DUDALEN YR YMGYRCH, ER MWYN HELPU I SICRHAU DYFODOL GWAITH GWELL I BAWB.

Rydym yn gofyn i chi'n helpu i rannu negeseuon 'Sgiliau i Bawb' mewn pedair prif ffordd.



### 1. CEFNOGI NEGESEUON CYFATHREBU PARHAUS

Helpu i rannu negeseuon parhaus ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy'ch sianeli gan ddefnyddio'r negeseuon a'r asedau a awgrymir yn y pecyn cymorth hwn a **#hyfforddiantamddim #Sgiliauibawb**



### 2. RHANNU A HOFFI CYNNWYS CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rhannu a hoffi cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a thrwy'ch sianeli gan ddefnyddio'r negeseuon a'r asedau a awgrymir yn y pecyn cymorth hwn a **#hyfforddiantamddim #Sgiliauibawb**



### 3. CYFEIRIO AT SGILIAU I BAWB

Cyfeirio pobl at gynllun Sgiliau i Bawb trwy gyfrwng eich gwefan, cylchlythyrau, dulliau marchnata a rhanddeiliaid, ac annog eich rhwydweithiau i wneud yr un peth.



### 4. EIN HELPU NI I HYRWYDDO DIWYLLIANT CADARNHAOL

Ein helpu ni i hybu a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn ymwneud â dysgu, drwy sôn am werth dysgu sgiliau newydd ar-lein a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy Sgiliau i Bawb.





# HELPWCH NI I HYRWYDDO DIWYLLIANT CADARNHAOL





# CYRRAEDD EIN CYNULLEIDFAOEDD

## MAE GENNYM 2 BRIF GYNULLEIDFA YR HOFFEM I CHI EIN HELPU I'W CYRRAEDD LLE BO MODD:

**1. DARPAR DDYSGWYR**
Mae'r platfform yn agored i bawb, boed ar ffyrlo, allan o waith, neu'n awyddus i ddysgu sgil newydd.

**2. CYFLOGWYR**
Hoffem i gyflogwyr annog eu gweithwyr i fanteisio ar y cyfleoedd dysgu hyn lle y bo'n briodol, fel y gallant ddatblygu'r gweithlu sgiliau uwch sydd eu hangen arnynt a chefnogi lles a chynnydd cyflogeion

## MAE'R TUDALENNAU CANLYNOL YN NODI'R NEGESEUON A'R CYNNWYS A FYDDAI'N ADDAS AR GYFER Y CYNULLEIDFAOEDD HYN.

**Byddem yn ddiolchgar pe baech chi'n dewis y negeseuon a'r cynnwys mwyaf addas ar gyfer eich sianeli yn seiliedig ar eich dilynwyr.**






# NEGESEUON ALLWEDDOL: DARPAR DDYSGWYR

Bydd Sgiliau i Bawb yn ei gwneud yn hawdd i chi gael gafael ar gyrsiau o safon uchel am ddim i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau ar draws ystod o feysydd.

- Mae **DATBLYGU EICH SGILIAU** yn gam cadarnhaol o ran symud ymlaen yn y gwaith neu sicrhau swydd newydd.
- Mae **SGILIAU DIGIDOL A RHIFEDD** yn werthfawr ac mae cryn alw amdanynt ar gyfer pob math o swyddi.
- Gallai **DYSGU SGIL NEWYDD** hefyd gefnogi eich iechyd meddwl a'ch lles yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Mae **DYSGU AR-LEIN** yn rhoi'r hyblygrwydd i chi ddysgu mewn ffordd sy'n gweithio i chi.
- Mae **HYBU SGILIAU DIGIDOL Y GENEDL** yn gam cyntaf tuag at adferiad a helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

**NEGESEUON CEFNOGOL**

- Mae'n hawdd dechrau arni, gyda detholiad o gyrsiau wedi'u pecynnu i chi ddewis ohonynt
- Beth am annog ffrind neu gydweithiwr i ddilyn yr un cwrs â chi, er mwyn cymharu nodiadau dros baned?
- Siaradwch â'ch teulu am y cwrs yr hoffech chi ei wneud fel y gallan nhw eich helpu i ddod o hyd i'r amser a'r lle i ddysgu gartref
- Os hoffech siarad â rhywun wrth ddewis cwrs, gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfaoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwe-sgwrs neu drwy ffonio 0800 028 4844.









## MAE SGILIAU I BAWB YN CANOLBWYNTIO AR Y SGILIAU MAE CYFLOGWR EU HANGEN



# NEGESEUON ALLWEDDOL: CYFLOGWYR

Hybu sgiliau digidol y genedl yw'r cam cyntaf tuag at adferiad, gan helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a hybu twf a chynhyrchiant.

- **MAE SGILIAU I BAWB YN CANOLBWYNTIO AR Y SGILIAU SYDD EU HANGEN AR GYFLOGWYR** gan roi mynediad hawdd i bobl at gyrsiau o safon uchel, yn rhad ac am ddim, mewn meysydd amrywiol fel digidol a rhifedd.
- **MAE'N GYFLE DA I ROI RHAGFLAS O'R CYFLEOEDD DYSGU AR-LEIN** i'ch helpu i ddarparu hyfforddiant mewn gwaith effeithiol yn y dyfodol.
- Gallai **SGILIAU I BAWB** eich helpu i gefnogi a datblygu eich gweithwyr ar ffyrlo.

### NEGESEUON CEFNOGOL


- Mae dysgu ar-lein yn ffordd wych o ail-ac uwchsgilio eich gweithwyr, gan roi'r adnoddau iddyn nhw allu cyflawni o'u gorau.
- Ydych chi'n ymwybodol o anghenion sgiliau penodol yn eich sefydliad, neu'n chwilio am gyfle i hybu sgiliau'n fwy cyffredinol? Beth bynnag yw eich nod, mae ystod eang o gyrsiau sy'n addas i fusnesau o bob math.
- Os hoffai eich gweithiwr siarad â rhywun wrth ddewis cwrs, gallant gysylltu â chynghorydd gyrfaoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwe-sgwrs a ffonio 0800 028 4844.

## CYFLE I ADEILADU SGILIAU A HYFFORDDI AM DDIM

FFONIWCH CYMRU'N GWEITHIO AR 0800 028 4844 NEU EWCH I CYMRUNGWEITHIO.LLYW.CYMRU

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

## SUGGESTED SOCIAL MEDIA POSTS TO SHARE WITH EMPLOYERS




**ENGHRAIFFT O NEGES DIWRNOD LANSIO**

Sgiliau i Bawb, menter newydd sy'n canolbwyntio ar y sgiliau mae cyflogwyr eu hangen drwy roi mynediad hawdd i bobl i gyrsiau o'r radd flaenaf yn rhad ac am ddim. Rhagor o fanylion yn cymrungweithio.llyw.cymru #SgiliauiBawb #HyfforddiantamDdim

**NEGES ENGHREIFFTIOL**

Gallai Sgiliau i Bawb, platfform dysgu ar-lein newydd sy'n cynnig detholiad o gyrsiau rhad ac am ddim o'r radd flaenaf, ym maes digidol a rhifedd, eich helpu i gefnogi a datblygu eich gweithwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rhagor o wybodaeth yn cymrungweithio.llyw.cymru #SgiliauiBawb #HyfforddiantamDdim








## MWY O SYNIADAU AR GYFER NEGESEUON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Hybu sgiliau digidol y genedl yw'r cam cyntaf tuag at adferiad, gan helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a hybu twf a chynhyrchiant. Dyna pam mae @LlywodraethCym wedi lansio Sgiliau i Bawb, platfform dysgu ar-lein newydd sy'n ei gwneud yn hawdd i bobl gael gafael ar gyrsiau o safon uchel am ddim. Rhagor o fanylion: cymrungweithio.llyw.cymru #SgiliauiBawb #HyfforddiantamDdim


Gallwch helpu i gefnogi lles eich gweithwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn gan ddefnyddio Sgiliau i Bawb, platfform dysgu ar-lein newydd @LlywodraethCym. Mae'n cynnig pob math o gyrsiau digidol a rhifedd o'r radd flaenaf, yn rhad ac am ddim, a all fod o fudd i'ch gweithwyr a'ch busnes heb unrhyw gost i chi yn cymrungweithio.llyw.cymru #SgiliauiBawb #HyfforddiantamDdim

Beth am annog eich gweithwyr ar ffyrlo i ddysgu rhywbeth newydd? Bellach, gallwch gefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u lles personol drwy rannu'r Pecyn Cymorth Sgiliau – menter newydd sy'n cynnig mynediad i gyrsiau o'r radd flaenaf yn rhad ac am ddim yn cymrungweithio.llyw.cymru #SgiliauiBawb #HyfforddiantamDdim

# ASEDAU SGILIAU I BAWB

Dyma rai syniadau am asedau digidol i'w defnyddio wrth rannu neges Sgiliau i Bawb gydag unigolion a chyflogwyr.



















# TEMPLED STORI CYLCHLYTHYR

**AWGRYM O GOPI AR GYFER STORI E-GYLCHLYTHYR**

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Sgiliau i Bawb, sy'n caniatáu i unigolion fanteisio ar gyrsiau ar-lein o'r radd flaenaf ar yr aelwyd. Bydd hyn yn eu galluogi i feithrin sgiliau newydd ac yn helpu i hybu twf a chynhyrchiant.

Mae Sgiliau i Bawb ar gael i bawb, ac yn cynnwys ystod o gyrsiau sy'n amrywio o lefel sylfaenol i lefelau uwch. Sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer pob math o swyddi gwahanol, gyda 82% o swyddi gwag yn gofyn am sgiliau digidol.



# NEGESEUON E-BOST

Dyma rai templedi y gallwch eu defnyddio wrth rannu negeseuon Sgiliau i Bawb â'ch gweithwyr a'ch aelodau.



**NEGES I HYRWYDDO SGILIAU I BAWB YMHLITH EICH GWEITHWYR, BOED AR FFYRLO NEU'N DAL I WEITHIO**

Annwyl <insert name>

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio menter newydd Sgiliau i Bawb sy'n cynnig detholiad o gyrsiau ar-lein o'r radd flaenaf yn rhad ac am ddim.

Gyda phawb yn treulio llawer o amser gartref ar hyn o bryd, roeddem am rannu'r cyfle newydd hwn gyda chi.

Gall Sgiliau i Bawb eich helpu i feithrin sgiliau, gan gynnwys codio, rhaglennu a marchnata digidol.

Gyda chyrsiau ar bob lefel, mae rhywbeth at ddant pawb. P'un ai'ch bod am loywi neu ddysgu rhywbeth cwbl newydd, rydyn ni [cyflogwr] yn gwerthfawrogi'r holl sgiliau hyn.

Mae'r sefyllfa bresennol yn anodd i bawb, ond os gallwch chi neilltuo amser, mae dysgu yn gallu bod o fudd i iechyd meddwl a lles hefyd. Mae [Cyflogwr] yn credu bod Sgiliau i Bawb yn ffordd wych o ddysgu o'r newydd yn eich amser eich hun.

Mae'r cyrsiau ar gael i bawb, felly os oes gennych gyfle, rydym yn teimlo y byddech yn elwa'n fawr ar fenter Sgiliau i Bawb i weld a allwch chi feithrin sgiliau at y dyfodol.

**COPI O NEGES E-BOST BOSIB Y GALL CYRFF CYNRYCHIADOL EI HANFON AT AELODAU**

Annwyl <insert name>

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio menter newydd Sgiliau i Bawb sy'n cynnig detholiad o gyrsiau ar-lein o'r radd flaenaf yn rhad ac am ddim. Mae [Corff cynrychiadol] yn teimlo y gall helpu pob un o'n haelodau i feithrin sgiliau eu gweithwyr o gartref, ar gyfer dyfodol gwaith gwell.

Mae Sgiliau i Bawb yn cynnig dewis o gyrsiau, yn amrywio o'r rhagarweiniol i'r lefelau uwch. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau ar sut i ddefnyddio Microsoft Office, creu effaith wrth gyflwyno'ch gwaith a dysgu sut i godio er mwyn dadansoddi data.

Mae'r sefyllfa bresennol yn anodd i bob un o'n haelodau a'u gweithwyr, ond mae'n hysbys fod dysgu o fudd i iechyd meddwl a lles hefyd, elfennau hollbwysig i unrhyw sefydliad. Mae [Corff Cynrychiadol] yn cefnogi menter Sgiliau i Bawb i'r carn, ac yn ei hystyried yn ffordd wych o gyflwyno cyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf, am ddim, sydd ar gael i bawb, yn ogystal â rhoi rhagflas o fanteision dysgu hyblyg ar-lein.

Mae'r fenter ar gael i bawb, felly os oes gan eich gweithlu gyfle i wneud hynny, teimlwn y byddent yn elwa'n fawr ar ddefnyddio Sgiliau i Bawb i weld a allant feithrin eich sgiliau chi ar gyfer y dyfodol.





# COPI AR GYFER GWEFANNAU

Copi posib ar gyfer gwefan er mwyn i ddarparwyr neu randdeiliaid gyfeirio eraill at Sgiliau i Bawb

**AR GYFER DYSGWYR**
Menter dysgu ar-lein newydd Llywodraeth Cymru yw Sgiliau i Bawb. Mae'n rhoi mynediad i gyrsiau rhad ac am ddim o'r radd flaenaf, i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau, camu ymlaen yn y gwaith a rhoi hwb i'ch rhagolygon gwaith [tra rydyn ni'n dal i aros gartref]. Gall sgiliau digidol olygu unrhyw beth o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a bod yn ddiogel ar-lein i godio, rhaglennu neu farchnata digidol. Mae'n cynnig rhywbeth at ddant pawb, waeth beth yw'ch lefel gychwynnol. Felly, p'un ai ydych am loywi neu ddysgu rhywbeth cwbl newydd, gallwch ddewis o blith cyrsiau rhagarweiniol, canolradd neu uwch.



**AR GYFER RHANDDEILIAID**
Menter dysgu ar-lein newydd Llywodraeth Cymru yw Sgiliau i Bawb. Mae'n rhoi mynediad i gyrsiau rhad ac am ddim o'r radd flaenaf, i'w helpu i ddatblygu sgiliau, camu ymlaen yn y gwaith a hybu eu rhagolygon swyddi. Mae sgiliau digidol yn dod yn fwyfwy hanfodol mewn swyddi a sectorau eang yn y gweithlu modern, gyda thri chwarter (75%) o bob swydd wag yn gofyn am sgiliau digidol sylfaenol o leiaf. Hybu sgiliau digidol y genedl yw'r cam cyntaf tuag at adferiad, gan helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a hybu twf a chynhyrchiant.


RHAGOR O WYBODAETH AM SGILIAU I BAWB?
FFONIWCH CYMRU'N GWEITHIO AR 0800 028 4844 NEU EWCH I CYMRUNGWEITHIO.LLYW.CYMRU